HSCCLD338

# Prosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth brosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys derbyn, dadansoddi, cyrchu a defnyddio gwybodaeth i lywio penderfyniadau ac yna casglu, dogfennu a rhannu gwybodaeth gwneud penderfyniadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. derbyn gwybodaeth gan unigolion ac eraill yn y fformatau y cytunwyd arnynt
2. cydnabod derbyn gwybodaeth ac ymateb i hysbyswyr
3. adolygu a blaenoriaethu gwybodaeth yn ôl brys a gofynion y gweithle
4. nodi a chasglu rhagor o ffynonellau gwybodaeth sydd ei hangen
5. dadansoddi’r wybodaeth a dderbyniwyd ac a gasglwyd i sicrhau ei bod yn gywir, yn berthnasol ac yn ddigonol, a chefnogi eraill i wneud hynny
6. edrych a oes unrhyw gyfyngiadau ar yr wybodaeth
7. nodi a chyflawni’r camau gofynnol ar sail gwybodaeth, a chefnogi unigolion ac eraill i wneud hynny
8. egluro'r rhesymau dros wneud penderfyniadau penodol
9. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i ddatrys heriau â gwybodaeth gwneud penderfyniadau
10. casglu a dogfennu gwybodaeth gwneud penderfyniadau mewn fformatau hygyrch i nodi'r dystiolaeth, y broses o wneud penderfyniadau, a'r camau a gymerwyd
11. rhannu gwybodaeth gwneud penderfyniadau berthnasol ag unigolion ac eraill
12. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i werthuso sut y cafodd gwybodaeth ei derbyn, ei chasglu, ei dadansoddi a’i rhannu
13. nodi a mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau sydd eu hangen i brosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau
14. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer prosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau
15. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i brosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. dulliau o gael gafael ar wybodaeth gwneud penderfyniadau, a'i dadansoddi a'i gweithredu
2. sut mae asesu cywirdeb, perthnasedd, a digonolrwydd yr wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi gwneud penderfyniadau
3. ffyrdd o nodi ac ymdrin â gwybodaeth a allai fod yn anghyson, yn amwys neu'n annigonol
4. sut mae cyfathrebu'n effeithiol er mwyn darparu a derbyn gwybodaeth gwneud penderfyniadau
5. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth ddarparu a derbyn gwybodaeth gwneud penderfyniadau
6. sut mae blaenoriaethu gwybodaeth gwneud penderfyniadau yn ôl brys a gofynion y gweithle, a pham fod hyn yn bwysig
7. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth ddarparu a derbyn gwybodaeth gwneud penderfyniadau
8. y mathau o wybodaeth ansoddol a meintiol y gallai fod eu hangen i ddadansoddi gwybodaeth gwneud penderfyniadau
9. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i brosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau
10. dylanwad diwylliant a chefndir ar ddewisiadau unigolion ar gyfer darparu gwybodaeth gwneud penderfyniadau
11. ffyrdd o gofnodi ac adrodd am wybodaeth mewn fformatau hygyrch i nodi'r dystiolaeth, y broses o wneud penderfyniadau, a'r camau a gymerwyd
12. y gwahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd targed y gallai fod angen gwybodaeth ar eu cyfer a faint o fanylion sydd eu hangen ar gyfer y rhain
13. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth dderbyn a rhannu gwybodaeth gwneud penderfyniadau
14. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar sut y gallai gwybodaeth gael ei derbyn a'i rhannu
15. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i werthuso sut y cafodd gwybodaeth ei derbyn, ei chasglu, ei dadansoddi a'i rhannu
16. pam ei fod yn bwysig cofnodi gwybodaeth yn ffeithiol a chanlyniadau posibl peidio â gwneud hynny
17. theorïau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau

18. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer prosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau
19. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth brosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau
20. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i brosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau
21. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth brosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau
22. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth brosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau, a sut i fynd i'r afael â hyn
23. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth brosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Prosesu gwybodaeth gwneud penderfyniadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD338 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Prosesu Gwybodaeth, Gwneud Penderfyniadau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |